



**Ysgol Iolo Morganwg**

**Polisi/Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

**2017**

Cyflwyniad	5
<b>1 Gweledigaeth ynghylch cydraddoldeb ac amcanion cydraddoldeb</b> .....	<b>5</b>
<b>2 Cydraddoldeb a strategaethau'r ysgol</b> .....	<b>6</b>
<b>3 Yr agenda genedlaethol ynghylch cydraddoldeb</b> .....	<b>6</b>
3.1 Deddf Cydraddoldeb 2010	6
3.2 Deddf Hawliau Dynol 1998	6
3.3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 .....	7
<b>4 Disgyblion</b> .....	<b>7</b>
4.1 Ysgol i bawb	7
4.2 Sut y byddwn yn darparu cydraddoldeb .....	8
4.3 Pa gymorth y gallwch chi ddisgwyl ei gael?.....	8
4.4 Gweithredu Cadarnhaol	8
4.5 Cyfathrebu	8
4.6 Cwricwlwm, adnoddau a chyswllt	9
4.7 Prynu nwyddau a gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth.....	9
4.8 Ymgysylltu	9
4.9 Hyfforddiant	9
4.10 Cwynion a sylwadau	10
<b>5. Gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu</b> .....	<b>10</b>
5.1 Gwahaniaethu	10
5.2 Aflonyddu gan gynnwys bwlio	11
5.3 Erledigaeth	11
5.4 Gwahaniaethu	11
<b>6 Perfformiad/ safonau – sut y byddwn yn cyflawni'r polisi</b> .....	<b>12</b>
6.1 Arweinyddiaeth a Rheolaeth	12
6.2 Gwneud penderfyniadau ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb .....	12
6.3 Nodi a chyhoeddi gwybodaeth am gydraddoldeb .....	13
<b>7 Cyflogaeth</b> .....	<b>13</b>
7.1 Cyflogaeth	13
7.3 Ceisiadau mewn perthynas â nodwedd a ddiogelir .....	14
7.4 Gweithredu cadarnhaol mewn Cyflogaeth.....	14
7.5 Monitro a chyhoeddi gwybodaeth am gyflogaeth .....	14
8 Cynllun Gweithredu 2011-2012	14

## **Cyflwyniad**

Saif yr ysgol ar gyrion dre'r Bont-Faen, ond mae'n gwasanaethu'r Fro wledig i gyd. Daw ein disgyblion o ardal sy'n ymestyn o Benybont-ar-Ogwr yn y gorllewin hyd at gyrion Caerdydd a'r Barri yn y dwyrain.

Agorwyd yr ysgol ym 1979, ar ôl cyfnod fel uned yn yr ysgol cyfrwng-Saesneg leol. Dros y blynyddoedd, bu'r ysgol yn tyfu'n dawel wrth i fwy a mwy o rieni weld gwerth addysg Gymraeg. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y rhieni di-Gymraeg sy'n anfon eu plant i'r ysgol wrth iddynt weld manteision dwyieithrwydd.

Ein braint yw gallu elwa o'r gymuned cyfrwng-Saesneg a chyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn allweddol wrth i ni roi'r cychwyn gorau posib i fywyd addysgiadol a chymdeithasol y plant sydd yn ein gofal.

## **Gweledigaeth / neu egwyddorion yr ysgol**

Dymunwn, fel ysgol, greu awyrgylch lle gall ein disgyblion ddatblygu'n addysgiadol, yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol, yn ysbrydol a chorfforol hyd eu heithaf. I'r diben hwn ceisiwn ysbrydoli'r plant trwy seilio eu haddysg ar iaith, crefydd, diwylliant a threftadaeth Cymru, a chreu ymwybyddiaeth gref o Gymreictod ac ennyn balchder yn ein hiaith yng nghalon pob plentyn.

Mae'r cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) yn datblygu rhai o gynlluniau a pholisïau blaenorol yr ysgol, sef y Polisi Anabledd, y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a Pholisïau Cydraddoldeb. Mae'n eistedd uwch ben Polisi Cynhwysiant yr ysgol ac ati. Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys yr hyn a oedd yn Bolisi Mynediad yr ysgol yn flaenorol. Mae'r polisi hwn yn eiddo i bawb ac mae'n berthnasol i bob disgybl, pob aelod o staff addysgu a gweinyddol, pob rhiant, pob gofalwr, pob cefnogwr a'r gymuned leol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi'r fframwaith i ni ar gyfer y cynllun hwn. Yn ogystal, mae Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn berthnasol i'r polisi hwn.

Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan y corff llywodraethol ar 26.3.12

## **1 Gweledigaeth ynghylch cydraddoldeb ac amcanion cydraddoldeb**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod pob ysgol yn meddu ar amcanion ynghylch cydraddoldeb erbyn mis Ebrill 2012. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys yr holl nodweddion canlynol a ddiogelir: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ac mae'n cynnwys yr iaith Gymraeg yng Nghymru. Mae'r cynllun gweithredu ar ddiwedd y ddogfen hon yn cynnwys camau gweithredu er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, ac maent wedi cael eu cynnwys fel menter neu gam gweithredu yng Nghynllun Gwella yr Ysgol.

Er mwyn pennu amcanion ar gyfer Ysgol Iolo Morganwg, roedd angen:

- Gwranddo ar arbenigwyr ynghylch cydraddoldeb a Phenaethiaid ysgolion ym Mro Morgannwg ynghylch eu dewis o amcanion cydraddoldeb

- Ystyried blaenoriaethau y cynllun blaenorol
- Trafod syniadau a blaenoriaethu gyda chynghor yr ysgol.
- Pennu amcanion sy'n cynnwys camau gweithredu cysylltiedig
- Holi rhieni/disgyblion

Nodir yr amcanion cydraddoldeb a flaenoriaethwyd yn atodiad 1.

Mae'r cynllun canlynol yn nodi ein hymrwymiadau o ran cydraddoldeb. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei werthuso trwy gyfrwng Cynllun Gwella yr Ysgol.

## **2 Cydraddoldeb a strategaethau'r ysgol**

Mae cyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn un o amcanion allweddol Cynllun Gwella yr Ysgol. Ystyrir goblygiadau cydraddoldeb ym mhob amcan gwella ysgol. Adroddir cynnydd a fydd yn cael ei sicrhau dan y cynllun hwn i'r Llywodraethwyr bob blwyddyn, a bydd yn cael ei gynnwys yn Hunanwerthusiad yr Ysgol. Adolygir y Cynllun cyn pen 4 blynedd o'r adeg y pennir yr amcanion cydraddoldeb yn 2017.

## **3 Yr agenda genedlaethol ynghylch cydraddoldeb**

Mae'r darnau canlynol o ddeddfwriaeth wrth wraidd yr agenda ynghylch cydraddoldeb.

### **3.1 Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae'r 9 nodwedd a ddiogelir o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys pawb: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi Dyletswyddau'r Sector Cyhoeddus y maent yn berthnasol i holl swyddogaethau'r ysgol:-

- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- Hyrwyddo cysylltiadau cymunedol da
- Gwaredu gwahaniaethu

Nodir dyletswyddau penodol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, fel y'u cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

### **3.2 Deddf Hawliau Dynol 1998**

Ceir cyswllt annatod rhwng Hawliau Dynol a chdraddoldeb. Caiff cydraddoldeb ei drin fel hawl dynol sylfaenol, o egwyddor parch cyfartal ar gyfer urddas hanfodol pawb.

Mae Erthygl 14 y Ddeddf Hawliau Dynol yn gwahardd gwahaniaethu 'ar unrhyw sail megis rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, cefndir cenedlaethol neu gymdeithasol, cyswllt gyda lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall'.

Diben y geiriau 'statws arall' yw cynnwys, ymhlith pethau eraill, cyfeiriadedd rhywiol, anghyfreithlondeb, statws priodasol, aelodaeth o undeb llafur, trawsrywioledd, anabledd, gofalwyr a charcharu.

Dim ond pan fydd yn gysylltiedig gyda chwyn ynghylch erthygl arall o fewn y Confensiwn y bydd modd defnyddio Erthygl 14, megis Erthygl 3: hawl i fywyd, rhyddid a diogelwch unigolyn neu Erthygl 8: yr hawl i gael gohebiaeth, cartref a bywyd teuluol a phreifat.

Mewn rhai achosion, mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn rhoi mwy o hawliau i bobl nag y mae deddfwriaeth cydraddoldeb arall yn eu rhoi, gan ei bod yn barnu triniaeth yn erbyn safon benodol ac nid yw'n dibynnu ar gymariaethau rhwng y triniaeth ar gyfer un grŵp o bobl a grŵp arall.

### **3.3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011**

Mae gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol ac mae'n perthyn i'r holl bobl yng Nghymru. Mae Mesur yr Iaith Gymraeg yn rhoi'r Gymraeg a'r Saesneg ar yr un sail gyfartal. Cymeradwywyd y Cynllun Addysg Gymraeg gan Gyngor Bro Morgannwg yn 2009 ac mae'n berthnasol i bob ysgol. Mae egwyddorion y Cynllun hwnnw a'r Cynllun hwn yn debyg – hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da, a byddwn yn ystyried yr iaith Gymraeg law yn llaw gyda'r holl nodweddion eraill a ddiogelir.

## **4 Disgyblion**

### **4.1 Ysgol i bawb**

Mae'n hysgol yn agored i bawb. Ni fyddwn yn gwahaniaethu yn ein meini prawf derbyn, wrth ddarparu addysg a'r cyfle i fanteisio ar unrhyw fudd, gwasanaeth neu gyfleuster, naill ai mewn ffordd uniongyrchol neu anuniongyrchol, yn erbyn unrhyw un y maent yn meddu ar nodwedd a ddiogelir.

Ni fyddwn yn gwahaniaethu ar sail:

- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu greddo
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol
- a'r iaith Gymraeg yng Nghymru.

Oedran yw'r 9fed nodwedd a ddiogelir. Yng nghyd-destun ysgol, mae'n berthnasol i bawb ac eithrio'r disgyblion.

Bydd y cyfleoedd a fydd ar gael yn ein hysgol o safon yr un mor uchel i bawb.

Mae dyletswydd yr ysgol tuag at ein disgyblion yn mynd y tu hwnt i'r addysg ffurfiol yn unig. Mae'n cynnwys holl weithgareddau'r ysgol, megis gweithgareddau allgyrsiol a hamdden, clybiau ar ôl ysgol a gwaith cartref, gweithgareddau chwaraeon a theithiau ysgol, yn ogystal â chyfleusterau ysgol megis llyfrgelloedd a chyfleusterau TG ac ati.

Mae gan yr ysgol ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion anabl. Mae'r ddyletswydd yn un rhagflaenol. Bydd yr ysgol yn holi disgyblion anabl a

fydd angen unrhyw gymorth neu addasiadau arnynt, er mwyn i ni allu bod yn barod ar eu cyfer e.e. paratoi nodiadau gwersi mewn print mawr neu mewn ffurf electronig cyn y wers. Mewn rhai achosion, efallai y bydd disgybl anabl yn cael cymorth dan y fframwaith anghenion addysgol arbennig (AAA), dan Rhan 4 Deddf Addysg 1993.

#### **4.2 Sut y byddwn yn darparu cydraddoldeb**

Byddwn yn prif-ffrydio cydraddoldeb wrth ddarparu addysg, y cyfle i fanteisio ar fanteision, gwasanaeth neu gyfleusterau, trwy sicrhau bod pobl:

- Yn gwybod y dyletswyddau cydraddoldeb ac ymrwymadau cydraddoldeb yr ysgol
- Yn gallu manteisio ar yr holl fanteision o fod yn yr ysgol
- Yn gwybod sut i ofyn am help
- Yn cael cynnig cymorth addas e.e. cyfieithu a dehongli, trafnidiaeth, technoleg, addasiadau ac ati, pan fyddai unigolyn dan anfantais ar sail nodwedd a ddiogelir os na fyddai'r gwasanaethau hyn ar gael – i fodloni angen, nid dewis yn unig
- Mae'r effaith ar yr unigolyn dan sylw yn hynod o bwysig wrth bennu'r hyn sy'n rhesymol

#### **4.3 Pa gymorth y gallwch chi ddisgwyl ei gael?**

Dim ond os bydd modd i'r ysgol brofi bod y gwasanaeth yn 'afresymol' neu'n 'anymarferol' y bydd modd iddi wrthod darparu cymorth neu waith addasu. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer amgylchiadau penodol ac nad oedd modd eu rhagweld y bydd modd i hyn fod yn berthnasol iddynt.

#### **4.4 Gweithredu Cadarnhaol**

Mae modd i'r ysgol gymryd camau cadarnhaol cymesur er mwyn rhoi sylw i'r anfanteision y bydd disgyblion y mae ganddynt nodwedd a ddiogelir yn eu hwynebu, neu pan fyddai'n galluogi neu'n annog cyfranogiad gan grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol. Un enghraifft o hyd yw gofyn i esiamplau gwrywaidd i weithio gyda'r holl blant (yn ogystal â grwpiau bach o fechgyn) er mwyn annog bechgyn i ddatblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu gwell. Byddwn yn casglu tystiolaeth cyn cymryd camau cadarnhaol.

#### **4.5 Cyfathrebu**

Bydd yr ysgol yn cyfathrebu gyda phobl mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw. Byddwn:

- Yn cynllunio deunyddiau y maent yn hawdd i'w darllen – iaith eglur a chynllun eglur
- Yn defnyddio delweddau sy'n adlewyrchu'r ysgol a'n cymuned leol
- Yn gofyn i bobl nodi pa ddull y maent yn ei ffafrio ar gyfer unrhyw gyfathrebu, lle y bydd modd i ni ei gofnodi a'i ddefnyddio e.e. negeseuon e-bost yn hytrach na llythyrau i rieni a gofawyr
- Darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffurfiau gan gynnwys print mawr, Braille, ieithoedd lleol ac ati, yn ôl yr angen
- Cynnwys manylion cyswllt llawn er mwyn ei gwneud yn hawdd i bobl gysylltu gyda ni
- Hyfforddi a chynorthwyo cyflogeion wrth iddynt gyfathrebu

Mae'r ysgol yn cydnabod iaith Arwyddion Prydain fel iaith yn ei haeddiant ei hun. Bydd yr ysgol yn hyrwyddo diwylliant a hunaniaeth y byddar, gan ddefnyddio gwaith recordio a dehongli IAP addas.

Byddwn yn hyfforddi staff perthnasol ym maes cydraddoldeb i'r byddar a sgiliau IAP, gan hysbysu'r holl staff o'r sawl y maent yn meddu ar y sgiliau perthnasol er mwyn delio gyda disgyblion, ymwelwyr, rhieni a llywodraethwyr.

#### **4.6 Cwricwlwm, adnoddau a chyswllt**

Byddwn yn prif-ffrydio cydraddoldeb trwy gyfrwng y cwricwlwm yn ein dewis o ddeunyddiau a gweithgareddau amrywiol a heriol. Byddwn yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i ystyried eu bywydau a'u hunaniaeth bersonol yng ngoleuni profiadau pobl y maent yn debyg i'w profiadau nhw ac yn wahanol iddynt.

Bydd y delweddau y byddwn yn eu defnyddio yn adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn bodloni trydedd dyletswydd y Ddeddf Cydraddoldeb – hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl. Ni fyddwn yn hepgor neu'n osgoi materion cydraddoldeb penodol oherwydd byddai gwneud hynny yn hyrwyddo darlun anghywir o bobl Casnewydd.

Byddwn yn croesawu pobl ar draws y nodweddion a ddiogelir i'n hysgol er mwyn rhannu eu sgiliau a'u profiadau. Byddwn yn sicrhau ein bod yn croesawu pawb.

#### **4.7 Prynu nwyddau a gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth**

Bydd yr ysgol yn trosglwyddo'i dyletswyddau cydraddoldebau i unrhyw unigolyn neu gorff:

- sy'n gweithio i ni neu gyda ni,
- sy'n darparu nwyddau i ni,
- os ydynt yn cael eu talu, yn gwneud gwaith gwirfoddol neu'n bartneriaid.

Bydd holl gontractau'r ysgol yn nodi bod yn rhaid iddynt gyflawni'r safonau ynghylch cydraddoldeb a nodir yn y Cynllun hwn. Effaith hyn yw bydd gweithgareddau sy'n gysylltiedig gyda'r ysgol yn deg ac yn gyfartal i'r holl gyflogeion, disgyblion a rhieni.

#### **4.8 Ymgysylltu**

Mae'r ysgol yn ymgynghori gyda ac yn cynnwys holl fudd-ddeiliaid yr ysgol mewn materion sy'n ymwneud gyda nhw, gan gynnwys y Cynllun hwn a'r Amcanion Cydraddoldeb. Bydd ymgysylltu gyda phobl yn rhoi tystiolaeth i ni weld pa mor dda yr ydym yn llwyddo i sicrhau cydraddoldeb.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau er mwyn darganfod barn disgyblion am yr ysgol a sut y maent yn teimlo amdani.

#### **4.9 Hyfforddiant**

Byddwn yn sicrhau bod yr holl bobl y maent yn ymwneud gyda'r ysgol yn ymwybodol o'n hymrwymadau cydraddoldeb a'u dyletswydd personol yn unol â hyn. Byddwn yn darparu hyfforddiant addas i'r holl staff a'r disgyblion. Pan geir materion neu faterion posibl e.e. tensiynau cymdeithasol, byddwn yn parhau i roi sylw i faterion trwy gyfrwng y cwricwlwm, gan ddefnyddio ymyriadau allanol wedi'u targedu yn ôl yr angen, er enghraifft, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.

Byddwn yn annog cyflogeion a llywodraethwyr i barhau i ddatblygu eu dysgu a'u profiad o gydraddoldeb trwy gyfrwng amrediad o ddulliau gan gynnwys astudio, cysgodi, partneriaethau a gwaith gefeillio ac ati.

## 4.10 Cwynion a sylwadau

Rydym yn hoffi cael adborth am yr ysgol. Mae angen i bobl ddweud wrthym sut yr ydym yn gwneud. Os oes gennych bryder neu gŵyn, a fydddech gystal â rhoi gwybod i ni. Mae modd i chi ddweud wrth athro neu unrhyw un a gyflogir yn yr ysgol, ein ffonio, ysgrifennu atom neu anfon neges e-bost atom. Os hoffech wneud apwyntiad gydag unigolyn perthnasol, byddwn yn trefnu hynny ac mae croeso i chi ddod â ffrind neu gydweithiwr gyda chi er mwyn cael eu cymorth.

Pan fyddwn yn delio gyda phryder neu gŵyn, byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod pobl yn cael gwybod am yr hyn sy'n digwydd, gan wneud yn siŵr bod pawb yn fodlon gyda'r broses. Mae eiriolaeth a chymorth personol ar gael i blant a phobl ifanc y mae angen iddynt ei gael.

## 5. Gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu

### 5.1 Gwahaniaethu

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu. Bydd yr ysgol yn sicrhau na fydd unrhyw beth a wnawn yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolyn neu bobl ar sail nodwedd a ddiogelir. Mae Hawliau Dynol yn berthnasol i bawb mewn perthynas â'r ysgol.

Caiff pedwar math o wahaniaethu anghyfreithlon eu diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac maent yn berthnasol i gyflogaeth a darparu gwasanaeth ar draws y nodweddion a ddiogelir:

1. **Gwahaniaethu uniongyrchol** – pan fydd unigolyn yn trin un arall mewn ffordd lai ffafriol o ganlyniad i nodwedd a ddiogelir e.e. yn gwrthod cynnig lle i blentyn oherwydd eu bod yn blentyn Roma.
2. **Gwahaniaethu uniongyrchol cyfunol (deuol)** – pan gaiff unigolyn eu trin mewn ffordd lai ffafriol o ganlyniad i gyfuniad o nodweddion a ddiogelir e.e. bydd ysgol yn diarddel disgybl oherwydd ei fod yn ddu ac yn wryw.

Erbyn hyn, mae **gwahaniaethu ar sail cyswllt** yn anghyfreithlon. Bydd gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd pan fyddwch yn trin disgybl mewn ffordd lai ffafriol oherwydd eu cyswllt gydag unigolyn arall y maent yn meddu ar nodwedd a ddiogelir e.e. mae eu brawd yn anabl.

Erbyn hyn, mae **gwahaniaethu ar sail tybiaeth** yn anghyfreithlon. Yn ogystal, bydd gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd pan fyddwch yn trin disgybl mewn ffordd lai ffafriol oherwydd eich bod yn credu bod ganddynt nodwedd a ddiogelir e.e. gwahaniaethu yn erbyn unigolyn ifanc y credir ei fod yn hoyw, hyd yn oed os nad ydyw.

3. **Gwahaniaethu anuniongyrchol** – pan fydd hi'n ymddangos bod polisi neu arfer yn niwtral, ond mae'r effaith yn golygu bod grŵp o bobl dan anfantais mewn ffordd sylweddol e.e. cod gwisg llym mewn ysgol, nad yw'n ystyried eitemau dillad y maent yn gysylltiedig gyda chrefydd.
4. **Gwahaniaethu sy'n codi oherwydd anabledd** – pan fydd unigolyn yn cael eu trin mewn ffordd lai ffafriol oherwydd rhywbeth sy'n ymwneud gyda'u nam e.e. disgybl y mae ganddo/ganddi anabledd dysgu yn cael eu disgyblu am



beidio dilyn rheol nad oeddent wedi ei deall oherwydd nad oeddent wedi deall yr arwydd.

## 5.2 Aflonyddu gan gynnwys bwlio

Bydd gwaith yr ysgol ynghylch addysg bersonol a chymdeithasol yn helpu i greu cymuned ysgol sy'n deall ac sy'n mwynhau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag aflonyddu. Mae aflonyddu yn ymddygiad nas dymunir, ac y mae ei ddiben neu ei effaith yn treisio urddas unigolyn neu'n creu amgylchedd bygythiol, anghyfeillgar, diraddiol, bychanol neu sarhaus ar gyfer yr unigolyn hwnnw.

Mae gan yr ysgol gyfrifoldeb dros ddiogelu disgyblion, darpar ddisgyblion, cyn ddisgyblion, cyflogeion ac ati, rhag aflonyddu. Bydd yr ysgol yn rhagweithiol wrth ddiogelu pobl trwy godi ymwybyddiaeth, hyfforddi athrawon a disgyblion, annog pobl i adrodd am aflonyddu, a bydd yn delio gyda phroblemau wrth iddynt godi.

Erbyn hyn, mae aflonyddu yn cynnwys **aflonyddu ar sail cyswllt** h.y. ffrind unigolyn anabl, **neu dybiaeth** h.y. y gred anghywir bod rhywun yn Fwslim.

Pan geir achosion o fwlio yn yr ysgol neu y maent yn gysylltiedig gyda'r ysgol, byddwn yn delio gydag achosion ar fyrder ac mewn ffordd sensitif. Rydym yn cydnabod bod achosion y maent yn cael eu cymell gan ragfarn yn erbyn pobl y mae ganddynt nodwedd benodol, neu fwlio sy'n effeithio ar un grŵp o bobl yn benodol, yn cael mwy o effaith negyddol ar gyfer y bobl dan sylw ac ar gyfer cymuned yr ysgol.

## 5.3 Erledigaeth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag erledigaeth ar sail unrhyw un o'r nodweddion a ddiogelir. Erledigaeth yw pan fydd unigolyn yn peri i unigolyn arall fod yn destun anfantais oherwydd eu bod wedi cyflawni neu oherwydd eu bod yn credu y byddant yn cyflawni, 'gweithred a ddiogelir'.

'Mae 'gweithred a ddiogelir' yn weithredoedd y maent yn cynnwys rhoi gwybodaeth neu dystiolaeth dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dwyn achos, neu wneud honiad mewn perthynas â'r Ddeddf, ar yr amod eu bod wedi gwneud hynny mewn ewyllys da – hynny yw, roeddent o'r farn eu bod yn gweithredu mewn ffordd onest.

## 5.4 Gwahaniaethu

Bydd galw enwau, ymosodiadau corfforol, bygythiadau, lledaenu sibrydion anwireddus yn bersonol ac ar-lein, yn fwy difrifol pan fydd unigolyn yn cael eu herlid am bwy ydynt. Rydym yn gwybod bod gwahaniaethu a rhagfarn yn arbennig o niweidiol i'r unigolyn ac i deulu, ffrindiau a chymuned yr ysgol. Bydd yr ysgol yn ystyried digwyddiadau gwahaniaethu mewn ffordd ddifrifol a sensitif, Yn ogystal, bydd honiadau anwireddus yn cael eu hystyried o ddifrif hefyd.

Byddwn yn cyflawni rôl gweithredol pan gaiff gwahaniaethu ei nodi a phan fydd yn cynnwys ein cyflogeion, ein disgyblion neu'n safle. Mae digwyddiadau 'ar y bws' neu 'y tu allan i'r ysgol' yn cael effaith yr un mor negyddol ar ein disgyblion ag y bydd digwyddiadau yn yr ysgol yn eu cael arnynt, a byddwn yn delio gyda hyn ble bynnag y mae'n hysbys.

Caiff gwahaniaethu sy'n cynnwys oedolion ei drin mewn ffordd wahanol i achosion sy'n cynnwys plant a phobl ifanc. Mae oedolion yn hollol gyfrifol am eu gweithredoedd. Efallai y bydd angen cymorth ac addysg ar blant a phobl ifanc mewn materion sy'n ymwneud gyda rhagfarn a gwahaniaethu ac o'r herwydd, byddwn yn ceisio darganfod datrysiadau sy'n cynnwys y grŵp cyfan, gan osgoi troseddoli unigolion o ganlyniad i'w gweithredoedd. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau datrysiadau, yn enwedig pan fydd digwyddiadau yn gymhleth neu'n cynnwys grŵp eang o bobl.

## **6 Perfformiad/ safonau – sut y byddwn yn cyflawni'r polisi**

### **6.1 Arweinyddiaeth a Rheolaeth**

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni ei chyfrifoldebau cyfreithiol ynghylch cydraddoldeb. Bydd aelod o'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am gadw golwg at faterion yn ymwneud â chydraddoldeb. Gyda chymorth y Pennaeth, bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod y Cynllun hwn yn cael ei weithredu.

Bydd materion cydraddoldeb yn eitemau rheolaidd ar agenda cyfarfodydd y Corff Llywodraethu ac mae un llywodraethwr yn gyfrifol am gydraddoldeb.

Yr unigolion penodol y maent yn gyfrifol am ddelio gyda digwyddiadau gwahaniaethu neu fwlio a fydd yn cael eu hadrodd yw'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod yr holl achosion o wahaniaethu y maent yn ymwneud gyda'r ysgol, ei disgyblion a'i staff yn cael eu hadrodd a'u cofnodi mewn cofrestr. Rhennir y gofrestr gyda'r awdurdod lleol er mwyn ei helpu i gynllunio gwaith gwrth-wahaniaethu. Ni fydd yr ysgol na'r awdurdod lleol fyth yn cyhoeddi manylion unigolion y maent wedi bod yn gysylltiedig gyda digwyddiadau.

Mae'r Cydlynnydd Cydraddoldeb yn aelod o staff uwch y mae ganddynt gyfrifoldeb arbennig dros weithredu a hyrwyddo materion cydraddoldeb a'r Cynllun hwn.

### **6.2 Gwneud penderfyniadau ac Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae asesiad o'r effaith yn cyfeirio at yr adolygiad o'r holl gynlluniau a'r polisiâu presennol ac arfaethedig er mwyn ein helpu i weithredu er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb, gan sicrhau na fydd unrhyw unigolyn dan anfantais o ganlyniad i weithgareddau'r ysgol trwy gyfrwng gwahaniaethu. Mae aseidiadau o'r effaith yn broses barhaus er mwyn sicrhau bod cynlluniau a pholisiâu'r ysgol yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n gynyddol gynhwysol a theg.

Fel rhan o ymdrech yr ysgol hon i gydymffurfio gyda dyletswyddau penodol y Ddeddf, byddwn yn parhau i gynnal asesiad o effaith yr holl bolisiâu a'r cynlluniau newydd cyn iddynt gael eu gweithredu. Yn yr un modd, byddwn yn cynnal asesiad o effaith ein polisiâu a'n cynlluniau presennol pryd bynnag y byddant yn cael eu hadolygu. O'r herwydd, caiff aseidiadau o'r effaith eu cynnwys yng ngwaith adolygu a diwygio yr ysgol sy'n cael ei gynllunio ar gyfer pob polisi.

### **6.3 Nodi a chyhoeddi gwybodaeth am gydraddoldeb**

Bydd yr ysgol yn nodi, yn cyhoeddi ac yn defnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb bob blwyddyn er mwyn dangos sut yr ydym yn cyflawni'r ddyletswydd ynghylch cydraddoldeb. Bydd modd dod o hyd i'r wybodaeth y byddwn yn ei chyhoeddi yn hawdd, a bydd y wybodaeth hon yn hawdd i'w deall.

Ar gyfer disgyblion a pherfformiad yr ysgol, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ynghylch:

- Cyfansoddiad, wedi'i rannu fesul grŵp blwyddyn, ethnigrwydd a rhyw ac yn ôl medrusrwydd yn y Gymraeg / Saesneg
- Cyfansoddiad, wedi'i rannu fesul mathau o anabledd ac anghenion addysgol arbennig
- Anghydraddoldeb o ran canlyniadau a chyfranogi y mae'n gysylltiedig gydag ethnigrwydd, rhyw ac anabledd, a gyda medrusrwydd yn y Gymraeg / Saesneg
- Achosion o wahaniaethu
- Cwynion.

Byddwn yn gweithredu mewn ffordd synhwyrol wrth baratoi gwybodaeth. Os yw grŵp y data yn fach iawn, rydym yn sylweddoli na fydd dadelfennu'r data hwnnw yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni e.e. ni fydd edrych ar gyflawniad academiaidd dau unigolyn mewn grŵp blwyddyn yn gallu dweud wrthym am berfformiad disgyblion Tsieineaidd yn gyffredinol. Ni fydd unrhyw ddata a gyhoeddir yn nodi manylion personol unigolion.

Bydd materion eraill, gan gynnwys anghenion ieithyddol, anghenion ymddygiadol, tlodi, hanes addysg ac ati, yn cael eu hystyried wrth ddadansoddi data ac wrth ddatblygu strategaethau er mwyn mynd i'r afael gyda gwahaniaethau cydraddoldeb

## **7 Cyflogaeth**

### **7.1 Cyflogaeth**

Nod yr ysgol yw bod yn gyflogwr teg, gan hyrwyddo diwylliant gwaith cyfeillgar. Heb bobl ymroddedig, brwdfrydig, medrus ac y maent yn cael eu grymuso, ni fydd modd i'r ysgol lwyddo. Byddwn yn creu amgylchedd gwaith iach, diogel a chefnogol lle y caiff pobl eu parchu am bwy ydynt, a lle y mae modd i gyflogeion berfformio hyd eithaf eu gallu.

Rydym yn dymuno i'n gweithlu adlewyrchu cymdeithas ym Mro Morgannwg ac yn Nghymru. Mae'n anghyfreithlon i wahaniaethu mewn ffordd uniongyrchol neu anuniongyrchol yn erbyn pobl wrth ddewis a chyflogi pobl, yn yr amodau cyflogaeth, wrth fanteisio ar hyfforddiant, wrth ddyrchafu, wrth drosglwyddo, wrth ymddeol, wrth ddiswyddo ac wrth gynnig manteision eraill, ar sail unrhyw rai o'r nodweddion a ddiogelir.

Bydd Polisi Tâl yr ysgol ar gyfer cyflogeion yr ysgol yn sicrhau bod gennym raddfeydd cyflog cadarn, gweithgarwch rheoli perfformiad ac ymrwymiad at ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer cyflogeion ar draws yr holl lefelau cyflogaeth.

### **7.3 Ceisiadau mewn perthynas â nodwedd a ddiogelir**

Byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i fodloni ceisiadau cyflogeion mewn perthynas â nodwedd a ddiogelir, gan gynnwys gwisg, bwyd, gwyliau, amser gweddïo, patrymau gwaith, gwyliau, cymorth, addasiadau corfforol ac ati, er mwyn peidio gwahaniaethu.

#### **7.4 Gweithredu cadarnhaol mewn Cyflogaeth**

Mae modd defnyddio mesurau gweithredu cadarnhaol er mwyn lleddfu effeithiau gwahaniaethu yn y gorffennol, fel bo modd i bobl mewn grwpiau o'r fath wireddu eu potensial. Byddwn yn dangos tystiolaeth ein bod o'r farn bod anfanteision neu ddiffyg cynrychiolaeth briodol o'r fath yn bodoli cyn gweithredu.

#### **7.5 Monitro a chyhoeddi gwybodaeth am gyflogaeth**

Byddwn yn monitro ac yn cyhoeddi gwybodaeth gydraddoldeb am ein holl weithlu yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bro Morgannwg. Mae hyn yn cynnwys monitro gweithgarwch recriwtio, datblygiad cyflogeion a gweithgarwch i'w cadw.

Mae gwasanaeth cyflogres y cyngor yn ein cynorthwyo gyda hyn. Byddwn yn cyhoeddi data mewn ffordd nad yw'n nodi manylion personol unigolion.

Ni fydd ffigurau ynghylch cyflogaeth yn ein hysbysu o'r rhesymau dros unrhyw wahaniaethau. I gael gwybodaeth am achosion gwahaniaethau a'r camau i'w cymryd er mwyn delio gyda nhw, byddwn yn holi cyflogeion presennol a darpar gyflogeion am eu barn a'u profiadau.